Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Leoliad y Blynyddoedd Cynnar Trefonnen Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod
**Lôn Trefonnen**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 5EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Blynyddoedd Cynnar Ysgol Trefonnen, sy’n cyfarfod mewn ystafell yn Ysgol Trefonnen, Llandrindod yn awdurdod lleol Powys. Mae’r lleoliad yn darparu addysg a gofal ar gyfer plant rhwng tair a phump oed mewn sesiynau dwy awr a hanner, pum bore’r wythnos. Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Mae 16 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae pob un ohonynt yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae’r lleoliad wedi nodi bod gan ychydig iawn o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Saesneg yw’r brif iaith y mae’r rhan fwyaf o’r plant yn y lleoliad yn ei siarad gartref. Mae rhai ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae dau aelod cymwys o staff yn gweithio yn y lleoliad, ac mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd er Mawrth 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yng Ngorffennaf 2017 a chan Estyn ym Mehefin 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cynnydd cyson o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y lleoliad ac yn dangos cymhelliant a brwdfrydedd yn eu dysgu
- Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o ddysgu blaenorol ac arferion dyddiol
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod tasgau'n ennyn diddordeb plant yn effeithiol
- Mae ymarferwyr yn defnyddio holi effeithiol i ddatblygu medrau meddwl plant
- Mae'r lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn llwyddiannus
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a chroesawgar ar gyfer plant

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan yr arweinydd a'r staff ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac maen nhw'n gweithio'n dda fel tîm
- Mae corff llywodraethol yr ysgol yn rheoli'r lleoliad yn dda ac yn cefnogi'r arweinydd yn effeithiol
- Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i nodi ei gryfderau a'i feysydd i'w gwella
- Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys rhieni, i wella safonau a lles plant
- Mae cysylltiad agos y lleoliad â'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn dda

## Argymhellion

A1 Gwella cynllunio fel ei fod yn datblygu medrau plant yn systematig ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu'n darparu her briodol er mwyn bodloni anghenion y plant mwy abl

A3 Gwneud defnydd gwell o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau dysgu plant a'u helpu i ddysgu am eu cymuned leol

A4 Sicrhau bod y cynllun datblygu yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd trwy broses hunanarfarnu'r lleoliad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae eu medrau personol a chymdeithasol yn datblygu'n dda ac mae llawer ohonynt yn defnyddio medrau meddwl yn effeithiol, er enghraifft wrth geisio canfod pwy fydd yn cael ei ddewis yn 'helpwr y dydd' o gliwiau a ddarparwyd gan yr ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda mewn ystod o sefyllfaoedd ac yn dangos lefel dda o ddiddordeb mewn storïau ac yn newyddion ei gilydd yn ystod 'amser gyda'n gilydd' yn y bore. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac maent yn hapus i sgwrsio ag oedolion a'u cyfoedion. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ymarferwyr ac yn ennyn diddordeb y gwrandäwr yn llwyddiannus wrth drafod eu gwaith neu'u gweithgareddau, er enghraifft wrth ddisgrifio pa fwyd y maent yn ei baratoi yn y gegin awyr agored. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn effeithiol. Defnyddiant ystod addas o eirfa yn eu trafodaethau, gan gynnwys geiriau penodol a ddysgwyd yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddisgrifio sut mae rhai anifeiliaid yn gaeafgysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn canolbwyntio'n dda ar storïau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymarferwyr. Maent yn galw ffeithiau a chymeriadau i gof o lyfrau cyfarwydd, ac yn disgrifio'r prif ddigwyddiadau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud arwyddion a symbolau â'u dwylo i gyd-fynd â rhannau o'r stori, er enghraifft i ddangos y sêr yn yr awyr. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn ail-ddweud storïau cyfarwydd a galw digwyddiadau allweddol i gof yn y drefn gywir. Mae lleiafrif o blant yn defnyddio'r gornel ddarllen yn annibynnol yn ystod y sesiwn i edrych trwy eu hoff lyfrau. Maent yn dal y llyfr yn gywir ac yn symud o un dudalen i'r llall yn effeithiol.

Mae llawer o blant yn creu marciau yn llwyddiannus. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn profiadau ysgrifennu ac mae llawer ohonynt yn dangos rheolaeth addas o sialc, ysgrifbinnau, creonau a phensiliau. Maent yn tynnu llun siapiau ar yr iard yn ogystal â chopïo siapiau ar bapur, er enghraifft wrth dynnu amlinelliad o ddraenog a chopïo siapiau dail. Mae rhai ohonynt yn dechrau ffurfio llythrennau yn llwyddiannus pan fyddant yn ceisio ysgrifennu eu henwau.

Mae llawer o blant yn defnyddio eu gwybodaeth am rif yn llwyddiannus i gyfrif hyd at ugain, ac mae lleiafrif ohonynt yn paru rhifau a gwrthrychau i ddeg, er enghraifft pan fyddant yn cyfrif nifer y plant sy'n bresennol yn ystod cofrestru. Mae lleiafrif ohonynt yn adio neu'n tynnu un rhif o rifau i fyny i ddeg yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn dechrau adnabod siapiau 2D cyfarwydd ac yn defnyddio siapiau 3D yn llwyddiannus i adeiladu strwythurau yn yr ardal adeiladu, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o siapiau a meintiau tebyg.

Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio technoleg yn briodol wrth ddefnyddio cyfrifiaduron llechen electronig a ffonau esgus yn y gornel chwarae rôl. Defnyddiant

apiau ar gyfrifiaduron llechen i ddatblygu ac atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r cyfrifiadur llechen electronig i drafod lluniau ohonyn nhw eu hunain yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol; maent yn dal yr offer yn gywir ac yn defnyddio'r sgrin gyffwrdd yn briodol.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth a chydganu â hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd, gan gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg. Gall llawer ohonynt ganu'n hyderus ac yn frwdfrydig gan ddefnyddio ystod addas o eiriau a geirfa Gymraeg. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau yn Gymraeg ac yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion sylfaenol, er enghraifft wrth ddisgrifio'r tywydd fel rhan o'u trefn ddyddiol. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn y lleoliad.

Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau corfforol a medrau echddygol manwl addas trwy ystod o weithgareddau, er enghraifft wrth ddefnyddio siswrn i dorri allan siâp draenog fel rhan o weithgaredd crefftau.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y lleoliad, maent yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac wedi'u cymell yn dda. Maent yn hapus i fod yn y lleoliad ac yn ymgynefino'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a dosbarth cyfan yn frwdfrydig. Dangosant ddealltwriaeth dda o ddysgu blaenorol ac arferion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion ac yn rhannu adnoddau a syniadau'n briodol, er enghraifft wrth baratoi pryd o fwyd yn y gegin awyr agored. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac mae llawer ohonynt yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn effeithiol, er enghraifft wrth helpu i baratoi ar gyfer amser byrbryd neu fel 'helpwr y dydd'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau cymdeithasol da ac yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr yn y lleoliad. Maent yn gwrtais â'i gilydd ac yn datblygu dealltwriaeth werth chweil o helpu ei gilydd yn ystod gweithgareddau ac wrth dacluso. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau da wrth ddysgu'n annibynnol ac maent yn awyddus i lwyddo, er enghraifft wrth baru cownteri â rhifau i 10. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau hunangymorth yn briodol, er enghraifft wrth iddynt wisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw ar gyfer y 'daith gerdded fwdlyd'.

Mae bron pob un ohonynt yn deall pwysigrwydd hylendid personol ac maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac yn brwsio eu dannedd ar ôl hynny. Mae ganddynt i gyd ddealltwriaeth addas o beth sy'n iach i'w fwyta a'i yfed ac maent yn hapus i yfed dŵr a llaeth yn ogystal â bwyta ffrwythau yn ystod amser byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio ystod addas o weithgareddau sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o blant a chwricwlwm y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Maent yn sicrhau bod tasgau yn ennyn diddordeb plant yn dda

ac yn dal eu dychymyg. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion pob plentyn yn effeithiol, gan gynnwys plant mwy abl. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n wythnosol i ddarparu ystod o weithgareddau addas ym mhob maes dysgu, dan do a'r tu allan fel ei gilydd. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau didoli dail yr hydref o wahanol liwiau y tu allan ac yn tynnu llun siapiau'r dail ar yr iard chwarae. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng tasgau wedi'u harwain gan oedolion a chyfleoedd i blant ddewis beth a ble mae arnynt eisiau chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau meddwl a medrau corfforol plant gan ddefnyddio'r ardal yn yr awyr agored a neuadd ac iard yr ysgol yn briodol. Mae ymarferwyr yn adolygu eu cynlluniau'n rheolaidd i gofnodi'r hyn y mae plant wedi mwynhau ei wneud. Fodd bynnag, nid ydynt yn arfarnu eu cynlluniau wythnosol yn ddigon gofalus i wneud yn siŵr bod yr holl blant yn meithrin eu gwybodaeth a'u medrau yn systematig dros gyfnod, gan gynnwys plant mwy abl.

Yn gyffredinol, mae cynllunio yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd a llythrennedd. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu eu medrau llafar a gwrando o ystod o weithgareddau, gan gynnwys gwrando ar storïau a chanu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu deall cyfarwyddiadau Cymraeg a chanu caneuon a rhigymau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu llafaredd Cymraeg plant yn systematig a'u hannog i ddefnyddio ymadroddion syml yn ystod gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i blant ymarfer medrau TGCh, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio teganau rhaglenadwy, cyfrifiaduron llechen electronig a chwaraeydd cryno ddisgiau. Mae plant yn defnyddio rhaglenni ar y cyfrifiaduron llechen electronig yn briodol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd a thrafod lluniau o weithgareddau gyda'u cyfoedion ac oedolion.

Rhoddir cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddiwylliant, traddodiadau a dathliadau Cymru. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy helpu i goginio teisennau cri a thrwy ddysgu am y wisg draddodiadol a'r faner. Maent hefyd yn dechrau dysgu am bwysigrwydd ailgylchu trwy weithgareddau addas, fel mynd â photeli plastig i'r man ailgylchu ac ailgylchu gwastraff bwyd. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu priodol i blant ddysgu am bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol, er enghraifft trwy ddysgu am y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd digonol o ymweliadau nac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant a'u haddysgu am rolau pobl yn eu cymuned leol.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu croesawgar ac ysgogol ar gyfer y plant. Mae'r berthynas weithio gref rhwng plant ac ymarferwyr yn cyfrannu'n dda at greu ethos o gydweithredu a pharch ar y ddwy ochr. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant ac maent yn eu hannog i ddyfalbarhau a gwneud eu gorau. Maent yn canmol plant am eu hymdrechion yn rheolaidd ac yn rheoli ymddygiad yn synhwyrol ac yn sensitif. Maent yn holi'r plant yn effeithiol yn ystod gweithgareddau er mwyn datblygu eu medrau meddwl, yn

ogystal â'u medrau llythrennedd a rhifedd, yn bwrpasol. Yn gyffredinol, mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y rhan fwyaf o blant ac maent yn eu herio'n briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i herio plant mwy abl yn ddigonol fel eu bod yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd rheolaidd.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn fodelau iaith da ac maent yn siarad yn glir, gan ddefnyddio iaith briodol. Maent yn modelu'r Gymraeg yn briodol ac yn annog plant i ymarfer eu medrau iaith trwy ganu hwiangerddi a defnyddio brawddegau cyfarwydd, er enghraifft wrth ddisgrifio'r tywydd.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer asesu cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn dda i asesu mannau cychwyn plant. Maent yn cofnodi arsylwadau o gynnydd plant yn drefnus a chynhwysfawr er mwyn olrhain eu cynnydd a rhoi adborth buddiol i rieni. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn rhoi cymorth addas i grwpiau ac unigolion a chynllunio'r camau nesaf cyffredinol yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ganddynt yn ddigon da yn eu cynllunio i wneud yn siŵr bod yr holl blant yn gwneud cynnydd systematig.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hysbysu rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plant a sut i'w cynorthwyo yn eu dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn dda trwy weithgareddau fel amser byrbryd. Mae plant yn datblygu eu hunanhyder a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus hefyd trwy gymryd cyfrifoldeb am baratoi'r ffrwythau a chydweithredu â phlant eraill i weini'r byrbryd a diod. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol hefyd tuag at ddatblygu medrau siarad a gwrando plant trwy sgwrsio â'i gilydd ac oedolion yn anffurfiol. Mae'r arferion sefydledig hylendid deintyddol a golchi dwylo yn helpu plant i ddysgu arferion da ar gyfer byw yn iach ac ymarfer eu medrau hunangymorth yn rheolaidd. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol plant, er enghraifft trwy annog plant i drafod teimladau yn ystod cofrestru a thrwy rannu storïau sy'n eu helpu i ddysgu am werthoedd fel gonestrwydd a pharch at bobl eraill.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant wneud ymarfer corff trwy wneud defnydd da o'i ardal yn yr awyr agored, yn ogystal â chyfleusterau helaeth yr ysgol dan do ac yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau i hyrwyddo ymddygiad da. Maent yn canmol ymddygiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu, tra'n ceisio atal ymddygiad annerbyniol yn sensitif ac yn gadarn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i ofal eu rhieni neu'u gofalwyr.

Mae gan y lleoliad brosesau cadarn i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn nodi anghenion ychwanegol yn briodol ac yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol i ddarparu cynlluniau addysg a chynlluniau ymddygiad unigol effeithiol. Maent yn cyfathrebu'n briodol â rhieni, yn dilyn cynlluniau'n ofalus ac yn monitro cynnydd plant yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae Blynyddoedd Cynnar Ysgol Trefonnen yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a chroesawgar ar gyfer plant.  Mae plant yn ymgynefino’n dda yn y lleoliad bob dydd ac yn mwynhau cwmni eu cyfoedion a’r ymarferwyr.  Mae’r adeilad cymunedol a adeiladwyd yn bwrpasol yn galluogi’r lleoliad i wneud defnydd llawn o holl gyfleusterau’r ysgol, yn ogystal â darparu mynediad hawdd at ystod o asiantaethau ar y safle, gan gynnwys gweithwyr iechyd.  Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i blant fynychu ystod o weithgareddau gyda disgyblion dosbarth derbyn o’r ysgol, yn ogystal â galluogi athrawon i ymweld â’r lleoliad yn rheolaidd.  Mae hyn yn helpu plant i ymgynefino yn yr ysgol yn gyflym pan fyddant yn trosglwyddo o’r lleoliad.  Mae ymarferwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i sicrhau ethos cynhwysol lle caiff yr holl blant eu parchu a’u trin yn deg.

Mae’r lleoliad yn ddiogel a glân.  Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn dathlu gwaith a llwyddiannau plant yn effeithiol.  Ceir amgylchedd ysgogol dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd, sy’n gwella profiadau dysgu’n dda.  Mae cyflenwad da o adnoddau a meysydd dysgu pwrpasol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant ymchwilio a dysgu drostynt eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 3:    Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer sicrhau hapusrwydd plant a’r gofal a’r addysg gorau posibl iddynt mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol.  Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn gweithio’n dda gyda phennaeth yr ysgol ac athro cyswllt yr awdurdod lleol i sicrhau bod y lleoliad yn darparu amgylchedd pwrpasol i ddatblygu dysgu’r plant.  Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac maent yn gweithio’n dda fel tîm i gyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau rheoli perfformiad priodol sy’n cynorthwyo ymarferwyr yn dda.  Mae arweinwyr yn monitro safonau addysgu fel rhan o’r broses werthuso flynyddol ac maent yn darparu adborth defnyddiol yn ogystal â nodi anghenion hyfforddi unigol.  Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi addas, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd defnyddiol gyda lleoliadau eraill, fel rhan o’u datblygiad proffesiynol.  Mae’r rhain yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad i gynorthwyo ymarferwyr i ddechrau cyflwyno cwricwlwm ar gyfer plant hŷn yn dilyn y newidiadau diweddar i’r polisi derbyn.

Caiff y lleoliad ei reoli gan gorff llywodraethol yr ysgol, sy’n cefnogi’r arweinydd yn dda.  Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gweithio’n agos ag arweinydd y lleoliad i sicrhau bod polisïau’n gyfoes a helpu i wneud penderfyniadau pwysig am gyllid a darpariaeth.  Mae’r lleoliad yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, gan gynnwys datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant a hyrwyddo byw yn iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i nodi ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys ystod addas o weithgareddau i fonitro safonau plant ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae ymarferwyr yn casglu safbwyntiau rhieni'n briodol trwy holiaduron ac yn defnyddio gwybodaeth o adroddiadau monitro partneriaid yn briodol. Maent yn ymgynghori â'r plant yn briodol trwy ofyn cwestiynau yn sensitif.

Mae'r pennaeth, sy'n gweithredu fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am y lleoliad, yn gweithio'n dda gyda'r arweinydd ac athro cyswllt yr awdurdod lleol i arfarnu'r ddarpariaeth a'r safonau. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu dadansoddiad cywir, arfarnol a gonest o waith y lleoliad ar y cyfan. Mae'n nodi meysydd priodol i'w gwella, sy'n cynnwys gwella medrau llythrennedd a rhifedd plant. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu presennol y lleoliad. O ganlyniad, nid yw'r targedau presennol ar gyfer gwella yn gweddu i anghenion y lleoliad yn ddigon da i'w helpu i symud ymlaen yn effeithiol. Nid yw'r lleoliad wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn llawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i wella safonau a lles plant. Mae'r cysylltiad agos ag Ysgol Trefonnen yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd yn yr awyr agored, neuadd yr ysgol a'r ystafell ddosbarth derbyn i hyrwyddo lles a ffitrwydd plant yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth yn helpu i baratoi plant yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg hefyd.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gydag athro cyswllt yr awdurdod lleol a'r pennaeth. Maent yn gweithredu'n briodol yn unol â'u cyngor a'u harweiniad i wella darpariaeth a deilliannau plant. Maent hefyd yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol a phartneriaid eraill, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau iechyd a lles y plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd effeithiol i godi unrhyw bryderon yn gynnar. Maent yn hysbysu rhieni am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd er mwyn iddynt gynorthwyo eu plant gartref. Caiff rhieni gyfleoedd ystyrlon i roi eu barn onest am ansawdd y ddarpariaeth trwy holiaduron. Maent yn gwerthfawrogi ymroddiad rhieni a'r perthnasoedd gweithio cryf y maent yn eu meithrin gyda'r plant.

Yn gyffredinol, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned leol yn ddigon effeithiol i gyfoethogi profiadau plant. O ganlyniad, nid yw plant yn dysgu am rolau'r bobl yn yr ardal leol, er enghraifft rôl y gwasanaethau brys i'w cadw nhw'n ddiogel.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad nifer ddigonol o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant pryd bynnag y bo'n briodol ond mae cyfleoedd i weld arfer dda mewn

lleoliadau eraill yn gyfyngedig.  Mae gan y lleoliad weithdrefnau ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad staff a chefnogi eu datblygiad.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau yn effeithiol, sy’n cefnogi dysgu’n dda.  Mae ganddo ystod dda o offer dysgu, y mae ymarferwyr yn eu defnyddio’n effeithiol i fodloni anghenion plant a gwella’u profiadau dysgu.  Er enghraifft, prynodd y lleoliad gyfrifiadur llechen yn ddiweddar gydag enillion a wnaed o ddigwyddiad codi arian i helpu plant i ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus.  Mae’r bartneriaeth gref ag Ysgol Trefonnen yn sicrhau bod y lleoliad yn manteisio’n llawn ar ei hadnoddau er budd y plant.  Mae aelodau o’r corff llywodraethol sy’n rheoli’r lleoliad yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’r sefyllfa ariannol ac maent yn rheoli gwariant yn ofalus.  Mae’r lleoliad yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i wella safonau a lles y plant.  O ystyried deilliannau disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |